


Darllenwch y canllaw cyfan yn ofalus cyn dechrau'r prawf.  
Efallai y bydd y prawf yma'n wahanol i'r un a ddefnyddioch yn flaenorol.

# Eich canllaw cam wrth gam i'r Hunan-Brawf COVID-19 DHSC (Prawf Antigenau Cyflym)



Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn berthnasol i'r Hunan-Brawf COVID-19 (Prawf Antigenau Cyflym) DHSC yn unig.

Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut i brofi eich hun neu unigolyn arall am y COVID-19, a rhoi gwybod i'r GIG am y canlyniadau.

Mae fersiynau ar gael mewn ieithoedd eraill, ynghyd ag arddangosiadau fideo ar: [gov.uk/covid19-self-test-help](https://www.gov.uk/covid19-self-test-help)

**Adroddwch eich holl ganlyniadau prawf i'r GIG**

# Beth sydd angen i chi ei wneud

## Eich canllaw cam wrth gam

Darllenwch trwy'r cyfarwyddiadau a dilyn y camau yn y drefn gywir. Mae pob prawf yn cymryd tua 15 munud i'w baratoi a bydd y canlyniadau'n barod wedi 30 munud arall.



Rhan	Teitl	Tudalen
<b>1</b>	Paratoi eich ardal brawf	6
	Gwirio cynnwys eich pecyn prawf	7
<b>2</b>	Paratoi eich prawf	8
<b>3</b>	Cymryd eich sampl swab	10
	Gwneud prawf ar rywun arall	11
<b>4</b>	Prosesu'r sampl swab	12
<b>5</b>	Darllen eich canlyniad	14
<b>6</b>	Rhoi gwybod am eich canlyniad	15
<b>7</b>	Beth mae eich canlyniadau'n ei olygu	16
<b>8</b>	Perfformiad y prawf	17
<b>9</b>	Gwaredu'ch pecyn prawf yn ddiogel	17
	Gwnewch nodyn o ganlyniadau eich profion	18

## Mae tua 1 o bob 3 o bobl gyda COVID-19 ddim yn gwybod ei fod arnynt.

Gyda hunan-broffion rheolaidd gallwn arafu'r lledaeniad a helpu i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn ein teuluoedd a'n cymunedau.

## Cyngor ar gymryd y prawf

Mae yna awgrymau defnyddiol, cyngor a blychau rhybudd wedi eu gwasgaru trwy gydol y canllaw i'ch helpu. Trwy ddilyn y cyfarwyddiadau hyn yn ofalus cam wrth gam, byddwch yn llawer mwy tebygol o gael canlyniad dibynadwy.

### Canllawiau a rhybuddion cyffredinol

- Defnyddiwch becyn ar wahân ar gyfer pob unigolyn. Allwch chi ddim ond defnyddio pob eitem yn y pecyn unwaith.
- Peidiwch ag ail-ddefnyddio'r eitemau. Bydd angen i chi roi gwybod am ganlyniad pob unigolyn.
- Os oes gennych broblemau gyda'ch dwylo neu'ch golwg, efallai y bydd angen cymorth rhywun arall arnoch gyda'r broses swabio a phrofi.
- Os oes un o'ch ffroenau wedi'i dyllu, swabiwch y ffroen arall. Os yw'r ddwy ffroen wedi'u tyllu, tynnwch y gemwaith ar un ochr cyn ei swabio.
- Os bu eich trwyn yn gwaedu o fewn y 24 awr ddiwethaf, swabiwch y ffroen arall, neu arhoswch am 24 awr.
- Dylech osgoi bwyta neu yfed am o leiaf 30 munud cyn gwneud y prawf, i leihau'r risg o ddifetha'r prawf.
- Dim ond at ddefnydd dynol y mae'r pecynnau hyn wedi'u cynllunio.

### CYNGOR

**Storiwch y pecyn prawf ar dymheredd ystafell neu mewn lle sych a lled oer (2°C i 30°C). Peidiwch â'i adael yng ngoleuni'r haul a pheidiwch â'i storio mewn oergell na rhewgell.**

Dylech ddefnyddio'r pecyn ar dymheredd ystafell (15°C i 30°C). Os yw'r pecyn wedi'i storio mewn lle oer (dan 15°C), gadewch ef ar dymheredd ystafell am 30 munud cyn ei ddefnyddio.

**Cadwch y pecyn prawf yn ddigon pell oddi wrth blant.**

# Ynglŷn â'r prawf hwn

## Pam ddylech chi wneud hunan-brawf

Mae'r pecyn hunan-brawf yma ar gyfer pobl heb symptomau. Mae'n brawf swab ar gyfer y trwyn a'r gwddf i wirio os ydych wedi'ch heintio.

Pobl heb symptomau yw'r rhai sy'n cario'r firws ond heb ddangos unrhyw symptomau.

## Os byddwch yn dychwelyd prawf positif ar gyfer COVID-19 gallwch:

- helpu cyfyngu ar ledaeniad y clefyd, dylech chi a'ch aelwyd hunanynysu gan ddilyn canllawiau'r llywodraeth: [nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/self-isolation-and-treatment/](https://www.nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/self-isolation-and-treatment/)
- gynghori'r rhai rydych wedi bod mewn cysylltiad agos â nhw, neu leoliadau rydych wedi ymweld â nhw yn ystod y 14 niwrnod diwethaf, er mwyn profi ar gyfer haint COVID-19 posibl.

## Os byddwch yn dychwelyd prawf negatiff ar gyfer COVID-19

Mae'n debygol nad oeddech yn heintus ar yr adeg y cynhaliwyd prawf. Fodd bynnag, nid yw canlyniad negatiff yn gwarantu nad oes coronafeirws arnoch.

### CYNGOR


Os oes gennych symptomau coronafeirws (COVID-19) neu os ydych wedi dal y coronafeirws (COVID-19), darllenwch ganllawiau'r GIG ar-lein:

[nhs.uk/conditions/coronavirus-COVID-19](https://www.nhs.uk/conditions/coronavirus-COVID-19)

Os oes gennych symptomau coronafeirws (COVID-19) a'r cyflwr yn gwaethygu, neu heb fod yn gwella ar ôl 7 diwrnod ewch i wasanaeth coronafeirws **111** y GIG: [111.nhs.uk](https://111.nhs.uk). Os na allwch ddefnyddio'r rhyngwyd, ffoniwch GIG **111**. Mewn argyfwng meddygol, ffoniwch **999**.

**Peidiwch ag oedi cyn gofyn am help os ydych yn poeni. Dilynwch eich greddf.**

## Ar gyfer pwy mae'r prawf yma'n addas



### Oedolion 18+ oed

Hunan-brofi a rhoi gwybod, gyda chymorth os oes angen.



### Pobl ifanc rhwng 12 a 17 oed

Hunan-brofi a rhoi gwybod gyda goruchwyliaeth oedolyn. Gall yr oedolyn gynnal y prawf yn ôl yr angen.



### Plant dan 12

Dylai oedolyn gynnal y prawf ar blant dan 12. Peidiwch â chynnal y prawf hwn os nad ydych yn teimlo'n hyderus yn cynnal y prawf ar blentyn.

### Pa mor aml i brofi

Gall pa mor aml y dylech brofi amrywio yn ôl eich amgylchiadau a beth yw'r canllawiau cenedlaethol neu leol ar y pryd.

### Ble i ddod o hyd i gymorth ychwanegol

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am hunan-brofi ar:  
[gov.uk/covid19-self-test-help](https://www.gov.uk/covid19-self-test-help)

# 1. Paratoi eich ardal prawf




**30**  
munud

Peidiwch â bwyta nac yfed am 30 munud cyn eich prawf

Bydd angen y canlynol arnoch:

- amserydd fel oriawr neu gloc
- hancesi papur
- drych
- glanhawr arwyneb
- hylif diheintio dwylo neu sebon a mynediad at ddŵr cynnes.




**1**

Darllenwch y canllaw cyfarwyddyd yma'n ofalus.

Gallwch hefyd wyllo'r fideo prawf swab ar-lein os ydych chi angen rhagor o help:

[gov.uk/guidance/covid-19-self-test-help](https://www.gov.uk/guidance/covid-19-self-test-help)



**2**

Yn syth cyn cychwyn y prawf, cliriwch, glanhewch a sychu arwyneb gwastad i roi'r pecyn prawf arno.




**3**

Golchwch eich dwylo'n drylwyr am 20 eiliad, gan ddefnyddio sebon a dŵr cynnes, neu hylif diheintio dwylo.


Os ydych yn cynnal mwy nag un prawf, glanhewch yr arwyneb a golchwch eich dwylo eto rhwng pob prawf.

# Gwiriwch gynnwys eich pecyn


4 Yn eich blwch pecyn profi, fe ddylech weld:




Daliwr tiwb echdynnu



Stribed prawf mewn deunydd pacio wedi'i selio



Tiwb echdynnu



Bag i'r gwastraff

Bag bach o hylif echdynnu

Swab y tu mewn i lapiad wedi'i selio

## CYNGOR

### Beth i'w wneud os yw rhywbeth wedi ei ddifrodi, torri neu ar goll

Os sylwch fod rhywbeth wedi ei ddifrodi, torri neu ar goll, peidiwch â defnyddio'r prawf. Gallwch roi adborth trwy ffonio'r ganolfan gyswllt i gwsmeriaid. Mae'r llinellau ar agor bob dydd, rhwng 7am hyd 11pm.

Ffoniwch: **119** (am ddim o ffonau symudol a llinellau tir).

Rydym yn cynnig cefnogaeth mewn 200 o ieithoedd, yn ogystal ag laith Arwyddion Prydain.

Os byddwch yn cael eich niweidio gan ddyfais, gallai adrodd amdano helpu eraill. Ewch i:

[coronavirus-yellowcard.mhra.gov.uk](https://coronavirus-yellowcard.mhra.gov.uk)

## 2. Paratoi eich prawf




5

Tynnwch y sribed prawf o'r bag wedi'i selio a'i osod ar yr arwyneb gwastad glân.


### RHYBUDD

Pan fyddwch wedi'i agor, dechreuwch y prawf o fewn 30 munud.




6

Gosodwch y tiwb yn y daliwr tiwb echdynnu wedi'i atodi y tu mewn i'r blwch.



7

Yn ofalus, trowch neu torrwcw ben y bag bach hylif nes ei agor. Agorwch y bag bach yn ddigon pell o'ch wyneb a gofawch beidio â gollwng unrhyw hylif.




8

Agorwch y tiwb echdynnu ac yn ofalus iawn, gwasgwch yr holl hylif o'r bag bach i'r tiwb.

Cymerwch ofal nad ydych yn cyffwrdd y bag yn erbyn y tiwb. Rhowch y bag bach yn y bag gwastraff a ddarperir.





9

Chwythwch eich trwyn yn ysgafn gan ddefnyddio hances bapur, a thafwch yr hances mewn bin wedi cau.


Os ydych yn cynnal prawf ar blentyn, helpwch ef i chwythu ei drwyn. Mae hyn er mwyn cael gwared ar lysnafedd gormodol.



10

Golchwch eich dwylo'n drylwyr eto am 20 eiliad, gan ddefnyddio sebon a dŵr cynnes neu gallwch ddefnyddio hylif diheintio dwylo.

Os ydych yn cynnal y prawf hwn ar unigolyn arall, dylai'r ddau unigolyn ailolchi neu ddiheintio eu dwylo.




11

Estynnwch am y swab yn y papur pacio wedi'i selio o'ch blaen. Chwiliwch am y blaen meddal, ffabrig.

#### RHYBUDD

Chwiliwch am flaen meddal, ffabrig y swab.



12

Peidiwch ag agor pecyn y swab ei hun nes y byddwch yn barod i'w ddefnyddio, ac yna tynnwch y swab allan yn ofalus.

# 3. Cymryd eich sampl swab

## RHYBUDD

Peidiwch â chyffwrdd â'r tafod, y dannedd, y bochau, y gymiau, neu unrhyw arwyneb arall gyda'r ffabrig meddal ar flaen y swab. Os bydd hyn yn digwydd, mae'n bosibl y bydd yn difetha'ch sampl.

Peidiwch byth â chyffwrdd â blaen ffabrig meddal y swab gyda'ch dwylo.


**Os ydych yn cynnal prawf ar blentyn dan 12 neu rywun sydd angen cymorth, dilynwch y camau ar dudalen 11**



13


Agorwch eich ceg yn llydan, a rhwbiwch flaen meddal y swab dros y ddau donsil (neu'r man lle oedd y tonsilau cyn cael eu codi).

Gwnewch hyn gyda chyswllt da 4 o weithiau ar bob ochr (defnyddiwch fflachlamp neu ddrych i helpu gwneud hyn). Tynnwch y swab yn ofalus o gefn eich gwddf.



14

Gosodwch yr un swab yn ofalus i mewn i 1 ffroen nes i chi deimlo ei fod yn cyffwrdd â rhywbeth (tua 2.5cm i fyny'ch trwyn).



15

Rholiwch y swab yn ofalus o amgylch y tu mewn i'r ffroen, gan droi 10 cylch cyflawn. Nid oes angen grym.

Efallai y bydd hyn yn teimlo'n anghyfforddus. Peidiwch â gosod y swab yn ddyfnach os teimlwch ei fod yn cyffwrdd â rhwystr neu'n peri poen.

# Gwneud prawf ar rywun arall

Dylai oedolyn gynnal prawf ar blentyn dan 12 oed. Dilynwch y canllawiau isod ar sut i baratoi a chynnal prawf ar blentyn neu unigolyn sydd angen cymorth. Gallwch wylïo fideo sy'n dangos hyn ar: [gov.uk/guidance/covid-19-self-test-help](https://gov.uk/guidance/covid-19-self-test-help)

Os ydych chi'n profi plentyn, dangoswch y pecyn prawf iddynt a thrafod beth fyddwch chi'n ei wneud. Os yn bosibl, rhowch nhw i eistedd ar lin rhywun neu gael rhywun i ddal eu llaw. Gofynnwch i'r plentyn chwythu ei drwyn mewn hances bapur. Rhowch yr hances mewn bin sy'n cau.




- 13** Daliwch y swab yn eich llaw, gofynnwch i'r plentyn agor ei geg yn llydan a gwyro ei ben yn ôl. Rhwbiwch flaen meddal y swab dros y ddau donsïl (neu'r man lle oedd y tonsiliau cyn cael eu codi).

Gwnewch hyn trwy gyffwrdd blaen y swab yn dda â'r fan honno 4 gwaith bob ochr. Tynnwch y swab allan yn ofalus.



- 14** Rhowch flaen ffabrig yr un swab yn ofalus i 1 o'i ffroenau nes byddwch yn teimlo rhywfaint o wrthiant.




- 15** Trowch y swab yn ofalus o amgylch tu fewn y ffroen mewn symudiad cylchol 10 o weithiau.

Os na wnaethoch swabio'r tonsiliau, gallwch swabio'r ddwy ffroen, gan droi 10 cylch cyflawn yn y ddwy ffroen.

# 4. Prosesu'r sampl swab


## AWGRYM

I gael y perfformiad gorau, profwch y swab cyn gynted â phosibl wedi sychu eich ffroen.



- 16** Codwch y tiwb echdynnu a gosodwch flaen y swab i mewn yn y tiwb fel ei fod yn yr hylif.


Pwyswch y blaen yn gadarn yn erbyn ymyl mewnol y tiwb echdynnu, wrth gylchdroi'r swab am 15 eiliad er mwyn trosglwyddo eich sampl i'r hylif yn drylwyr.



- 17** Gwasgwch y tiwb echdynnu yn erbyn y swab wrth i chi dynnu'r swab allan.

Gwnewch yn siŵr bod yr hylif i gyd yn cael ei dynnu allan o flaen meddal y swab.

Rhowch y swab yn y bag gwastraff a ddarperir.




- 18** Pwyswch y caead yn dynn ar y tiwb echdynnu er mwyn osgoi unrhyw ollyngiadau.

## CYNGOR


Golchwch eich dwylo eto wedi cwblhau'r cam yma.






- 19** Sicrhewch fod y pecyn prawf ar arwyneb glân a gwastad.

Peidiwch â symud y strïbed yn ystod y prawf.



- 20** Gwasgwch y tiwb echdynnu yn ofalus i roi 2 ddiferyn o'r hylif yn i'r ffynnon sbesimen (S) ar y strïbed profi.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gollwng hylif ac nid swigen aer. Rhowch y ffiol casglu sampl yn y bag gwastraff ynghyd â'r swab.



- 21** Gosodwch amserydd ac aros 30 munud cyn i chi ddarllen eich canlyniad.


Gall canlyniad positif ymddangos unrhyw adeg ar ôl 20 munud, ond dylech aros am y 30 munud llawn i gofnodi canlyniad negatif oherwydd gallai'r llinell brawf (T) gymryd cymaint o amser â hynny i ymddangos.

Dysgwch sut i ddarllen a rhoi gwybod am eich canlyniad ar y dudalen nesaf. >>

# 5. Darllen eich canlyniad

## PWYSIG

Peidiwch â gadael i'r prawf ddatblygu am fwy na 30 munud gan y bydd hyn yn gwneud y canlyniad yn annilys.



## Canlyniad positif


Mae dwy llinell yn ymddangos. Dylai un llinell lliw fod yn ardal y llinell reoli (C), a llinell lliw arall yn ardal y llinell brawf (T).

Mae dwy llinell, un wrth ymyl C ac un wrth ymyl T, hyd yn oed os ydynt yn llinellau gwan, yn dangos bod canlyniad y prawf yn bositif.

## PWYSIG


Os bydd eich prawf yn bositif, dylech chi a'ch aelwyd hunanynysu gan ddilyn canllawiau'r llywodraeth:

[nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/self-isolation-and-treatment/](https://www.nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/self-isolation-and-treatment/)



## Canlyniad negatif

Dylai un llinell lliw fod yn ardal y llinell reoli (C). Nid oes llinell yn ymddangos yn ardal y llinell brawf (T).




## Canlyniad annilys

Nid yw'r llinell rheoli (C) yn ymddangos.

# 6. Rhoi gwybod am eich canlyniad

Dylech roi gwybod i'r GIG am eich canlyniadau positif, negatif ac annilys.



Mae cofnodi canlyniadau pob prawf yn helpu gwyddonwyr i nodi achosion newydd o'r firws a chynghori ar sut i ymateb. Os bydd pobl yn rhoi gwybod am ganlyniad positif yn unig, bydd lefelau achosion yn ymddangos i fod yn uwch nag ydynt mewn gwirionedd.

Felly hyd yn oed os yw'ch canlyniad yn negatif neu'n annilys, dylech sicrhau bod gwybodaeth y GIG yn gywir.

Mae angen y cod QR, neu'r rhif adnabod oddi tano i roi gwybod am eich canlyniad.

## Rhoi gwybod ar-lein (cyflymaf)

Os ydych yn byw yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon, ewch i:

[gov.uk/report-covid19-result](https://www.gov.uk/report-covid19-result)

Os ydych chi'n byw yn yr Alban ewch i:

[covidtest.scot](https://www.covidtest.scot)

## Neu, rhwch wybod dros y ffôn

Ffoniwch **119**

Mae llinellau ar agor bob dydd, rhwng 7am ac 11pm, (am ddim o ffonau symudol a llinellau tir)

# 7. Beth mae eich canlyniadau'n ei olygu

## Dim ond wedi i chi roi gwybod am eich canlyniad fyddwch chi wedi cwblhau eich prawf

### Canlyniad positif

Os cewch chi ganlyniad positif, mae'n dangos eich bod wedi'ch heintio ar hyn o bryd gyda COVID-19 ac mewn perygl o heintio eraill. Pan fyddwch yn rhoi gwybod am eich canlyniad, byddwch yn derbyn rhagor o wybodaeth am y camau nesaf i'w cymryd.

#### RHYBUDD

Dylech chi, unrhyw un sy'n byw ar eich aelwyd, ac unrhyw un yn eich swigen gefnogaeth, hunanynysu yn unol â'r canllawiau cenedlaethol a lleol cyfredol, sydd i'w gweld yn: [nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/self-isolation-and-treatment/](https://nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/self-isolation-and-treatment/)

### Canlyniad negatif

Os cewch chi ganlyniad negatif, mae'n debygol nad oeddech yn heintus ar yr adeg y cynhaliwyd prawf. Fodd bynnag, nid yw canlyniad negatif yn gwarantu nad oes COVID-19 arnoch.

Os yw canlyniad y prawf yn negatif, dylech barhau i ddilyn rheolau a chanllawiau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys golchi dwylo'n rheolaidd, cadw pellter cymdeithasol a gwisgo gorchudd wyneb lle mae angen gwneud hynny.

Os ydych yn datblygu symptomau gwres uchel, peswch newydd, parhaus, a cholli eich synnwyr blasu neu arogli, neu os oes newid yn y synhwyrau yma, dylech chi a phawb ar eich aelwyd hunanynysu a'r canllawiau yw i gael prawf arall yn: [gov.uk/get-coronavirus-test](https://gov.uk/get-coronavirus-test) neu drwy ffonio'r ganolfan gyswllt cwsmeriaid ar **119**. Llinellau ar agor bob dydd, 7am hyd 11pm.



## Canlyniad annilys

Os byddwch yn cael canlyniad annilys, mae hyn yn golygu nad yw'r prawf wedi ei gyflawni'n gywir. Mae angen i chi ddefnyddio prawf llif unffordd arall o'r pecyn. Peidiwch ag aildefnyddio unrhyw beth o'r prawf cyntaf, a dechreuwch y weithdrefn brofi o gam 1.

## Os yw'r broblem yn parhau

Os yw'r broblem yn parhau, stopiwch ddefnyddio'r pecynnau prawf ar unwaith. Os nad oes gennych chi brawf arall ar gael, gallwch gymryd gwahanol fath o brawf trwy ap COVID-19 y GIG neu trwy fynd i:

[gov.uk/get-coronavirus-test](https://gov.uk/get-coronavirus-test) neu trwy ffonio'r ganolfan gyswllt i gwsmeriaid ar **119**. Mae'r llinellau ar agor pob dydd, 7am hyd 11pm.

## 8 Perfformiad y prawf

Mae'r prawf yn fwy tebygol o roi canlyniad positif os oes gan rywun lefelau uchel o goronafeirws (COVID-19).

Mae hyn yn golygu ei fod yn fwy tebygol o ddarganfod y bobl sy'n heintus ar hyn o bryd y mae angen iddynt hunanynysu ar unwaith.

## 9 Gwaredu'ch pecyn prawf yn ddiogel



Pan fyddwch wedi cwblhau eich prawf, rhowch yr holl eitemau o'r pecyn prawf a ddefnyddiwyd yn y bag gwastraff a ddarparwyd, a rhoi hyn yng ngwastraff cyffredinol y cartref.

Golchwch eich dwylo'n drylwyr ar ôl gwaredu.



# Mae eich pecyn yn cynnwys y deunyddiau canlynol

Eitemau	Pecyn o 3	Pecyn o 7
Cyfarwyddiadau ar sut i'w defnyddio (sef y ddogfen hon)	1	1
Blwch gyda thwll daliwr tiwb	1	1
Stribed prawf mewn paced wedi ei selio	3	7
Bag bach o Hylif Echdynnu	3	7
Daliwr tiwb echdynnu	3	7
Swab y tu mewn i lapiad wedi'i selio	3	7
Bag gwastraff	3	7
	Cod cynnyrch TK2196	Cod cynnyrch TK2193

Ni chaniateir cyflenwi'r ddyfais hon ond fel rhan o waith y DHSC dan raglen Profi ac Olrhain y GIG.



**Gwneuthurwr:** Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 39 Victoria Street, Westminster, Llundain, SW1 0EU.

**Gweithgynhyrchwyd dan contract i DHSC gan:** Xiamen Biotime Biotechnology Co Ltd, 2F/3F/4F, No. 188, Pingcheng South Road, Haicang Street, Haicang District, Xiamen, Fujian, 361026, P. R. China.

### Mynegai i'r symbolau



Storiwch o fewn 2 – 30°C



Diheintiwyd gan ddefnyddio ethylenocsid



Gwneuthurwr



Cynhwysir digon ar gyfer xx o brofion



Rhif lot



Dyddiad defnyddio erbyn



Dyfais feddygol ddiagnostig in vitro



Peidiwch â defnyddio os oes difrod i'r pecyn



Cadwch allan o olau'r haul



Dyddiad cynhyrchu



Peidiwch â'i aildefnyddio



Ailgylchadwy



Cadwch yn sych



Darllenwch y cyfarwyddiadau wrth ei ddefnyddio



Rhybudd

Mae'r holl wybodaeth a'r delweddau yn y ddogfen hon yn gywir ar 18 Mehefin 2021.  
Fersiwn 1.3.4

**Adroddwch eich holl ganlyniadau prawf i'r GIG**